
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# **Meithrin Cydnerthedd**
# Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau

Mawrth 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDGCh@assembly.wales**
Twitter: **@ SeneddDGCh**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# Meithrin Cydnerthedd
## Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau

Mawrth 2018

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 28 Mehefin 2016. Mae ei gylch gwaitch ar gael yn: [www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh](www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh)

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Bethan Sayed AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AC**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Suzy Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Siân Gwenllian AC**
Plaid Cymru
Arfon



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru
Islwyn



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd

**Jack Sargeant AC**
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Hannah Blythyn AC**
Llafur Cymru
Delyn



**Neil Hamilton AC**
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni



**Dai Lloyd AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru
Castell-nedd



**Lee Waters AC**
Llafur Cymru
Llanelli

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** ........ **5**

**Argymhellion** ........ **7**

**1. Cefndir** ........ **9**

Ein Barn ........ 10

**2. Cymorth busnes** ........ **11**

Perfformiad Cymru wrth ddenu cymorth busnes ........ 11

Gwasanaethau i gefnogi codi arian ........ 11

Cydbwysedd cyllid rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat ........ 12

Ein Barn ........ 13

**3. Cyfraniadau gan unigolion** ........ **15**

Yr amgylchedd o ran cyfraniadau gan unigolion yng Nghymru ........ 15

Cymhelliannau dros gyfrannu ........ 15

Ein Barn ........ 17

**4. Sefydliadau ac ymddiriedolaethau** ........ **18**

Y farchnad bresennol ........ 18

Problemau i'w goresgyn ........ 18

Enghreifftiau o lwyddiant ........ 19

Cynyddu cyllid ........ 20

Ein Barn ........ 21

**5. Codi refeniw** ........ **23**

Ffynonellau incwm ........ 23

Twf rhyngwladol ........ 25

Ein Barn ........ 28

**6. Gwirfoddoli** ........ **29**

Ein Barn ........ 29

**7. Cyllid Cyhoeddus ar gyfer y Celfyddydau** ........ **30**

Materion celfyddydol a pholisi cyhoeddus ........ 30

Ein Barn ........ 31

**8. Ffynonellau eraill o gymorth ariannol ........ 32**

Ein Barn ........ 33

**9. Mentrau cyfredol a ffyrdd ymlaen ........ 34**

Ein Barn ........ 35

**Atodiad A – Sesiynau tystiolaeth lafar ........ 37**

**Atodiad B – Tytsiolaeth ysgrifenedig ........ 39**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae'r celfyddydau yn goleuo ac yn cyfoethogi ein bywydau. Maent yn rhan anhepgor o'n cymdeithas ac yn dod â manteision eang i bob un ohonom.

Mae manteision ymarferol a manteision economaidd i'r celfyddydau, a gallant ein helpu i ymdrin ag amrywiaeth o faterion polisi cyhoeddus, boed hynny yn y system addysg neu wrth helpu i ymdrin â materion iechyd sydd, fel arall, yn anhydrin. Mae cymryd rhan yn y celfyddydau o gymorth i gydlyniant cymunedol a gall leihau unigrwydd ac allgáu cymdeithasol.

Er gwaethaf hyn, mae cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru yn lleihau. Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru wedi lleihau ddeg y cant mewn termau real dros y degawd diwethaf, ac mae Llywodraeth Cymru wedi galw ar y sector i leihau ei ddibyniaeth ar y pwrs cyhoeddus.

Byddai'n demtasiwn, yn syml iawn, i alw am gynyddu arian cyhoeddus, a byddai'n sicr yn ddymunol pe bai adrannau'r Llywodraeth yn gweithio ar sail mwy trawsbynciol pan maent yn dyrannu arian i'r celfyddydau.

Teimlai'r Pwyllgor, fodd bynnag, y byddai'n gynhyrchiol edrych ar ba mor ymarferol fyddai cynyddu arian nad yw'n arian cyhoeddus, a gofyn a oes unrhyw gamau ymarferol y gall y sector eu cymryd i arallgyfeirio a chynyddu cyllid o'r fath. Cytunodd y Pwyllgor mai dyma'r adeg gywir i edrych ar hyn, i weld:

- pa mor llwyddiannus y bu'r sector celfyddydau yng Nghymru wrth gynyddu cyllid nad yw'n arian cyhoeddus;
- sut y caiff arian ar gyfer y celfyddydau nad yw'n arian cyhoeddus yng Nghymru ei rannu ledled y wlad; a
- a oes modelau rhyngwladol, o ran arferion gorau, y gallai Cymru eu hefelychu.

Daeth yn amlwg bod y Celfyddydau yng Nghymru yn wynebu heriau gwirioneddol iawn os ydynt am gynhyrchu rhagor o refeniw masnachol a chynyddu'r incwm a ddaw gan ymddiriedolaethau a sefydliadau. Mae maint bychan ein sefydliadau celfyddydol yng Nghymru, a'u pellter o ganolfannau poblogaethau mawr yn cyfrannu at yr anawsterau iddynt godi arian yn aml. Nid yw Cymru ychwaith wedi'i bendithio â nifer fawr o unigolion gwerth net uchel, ac ychydig o gwmnïau mawr sydd â'u pencadlys yma.

Mae hyn yn creu sefyllfa o gyfyng-gyngor i raddau, oherwydd, er mwyn cynyddu cyllid y sector nad yw'n gyllid cyhoeddus, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol gan y sector cyhoeddus ar y sefydliadau celfyddydol yn y lle cyntaf. Yn benodol, efallai y bydd angen rhagor o gymorth arnynt i ddatblygu'r sgiliau codi arian sydd eu hangen, ac i chwilio am ffynonellau cyllid newydd.

Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud rhagor hefyd i godi proffil y celfyddydau fel achos elusennol, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith ymddiriedolaethau a sefydliadau'r DU o'r rhagoriaeth sydd ar gael mewn cysylltiad â'r celfyddydau yng Nghymru. Mae hefyd angen i Lywodraeth Cymru edrych yn strategol ar sut y gall helpu i hyrwyddo'r celfyddydau yng Nghymru i gynulleidfa ryngwladol. Mae hwn yn faes arall lle gallai cefnogaeth gynyddol, ac sydd wedi'i chydlynu'n well, oddi wrth Lywodraeth Cymru dalu ar ei ganfed.

Yr hyn sy'n amlwg yw nad yw'n ddigon i Lywodraeth Cymru alw am i'r sector celfyddydau leihau ei ddibyniaeth ar gyllido cyhoeddus, ond mae angen iddi hefyd ddarparu lefel briodol o gymorth sydd wedi'i deilwra a'i lywio'n ddoeth i ategu hyn. Ond dylai'r sefydliadau hynny ym myd y celfyddydau ysgwyddo rhywfaint o gyfrifoldeb, i fod mor rhagweithiol â phosibl wrth geisio canfod ffynonellau arian a chymorth eraill pan fo'n briodol, ac i ddeall nad oes modd iddynt ddibynnu ar arian cyhoeddus yn unig i'w cefnogi yn realiti'r byd sydd ohoni.



Bethan Sayed AC
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi cefnogaeth ariannol, boed hynny drwy Gelfyddydau a Busnes Cymru neu ffynhonnell arall, i hyrwyddo a datblygu gweithio mewn partneriaeth rhwng busnesau a'r celfyddydau i helpu i uchafu'r gefnogaeth ariannol ar gyfer y celfyddydau gan fusnes. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried hefyd sut y gellid rhoi sylw i'r anawsterau penodol a wynebir gan y sector celfyddydau yng Nghymru o ran denu cyllid gan fusnesau, a ph'un a fydd angen buddsoddi cyhoeddus ychwanegol yn y maes hwn er mwyn gyrru'r gwaith yn ei flaen. Tudalen 13

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rhagor o fentrau i godi proffil y celfyddydau fel achos elusennol, gan gynnwys gwobr Dydd Gŵyl Dewi i gydnabod y rhai sydd wedi gwneud cyfraniadau sylweddol i gefnogi'r celfyddydau. Tudalen 17

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i godi ymwybyddiaeth ynghylch y sefydliadau a'r prosiectau celfyddydol rhagorol a leolir yng Nghymru, a buddsoddiad ynddynt, gan sefydliadau ac ymddiriedolaethau o'r DU. Tudalen 22

**Argymhelliad 4.** Dylai ymddiriedolaethau a sefydliadau a leolir yn y DU fynd i'r afael â'r cydbwysedd cyllid yn y DU fel mater o frys, lle mae swm annheg ac anghyfartal o gyllid yn cael ei ddyrannu i sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr. Tudalen 22

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil er mwyn nodi a manteisio ar farchnadoedd rhyngwladol sydd â photensial ar gyfer tyfu sefydliadau celfyddydol Cymru. Tudalen 28

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod elfen ddiwylliannol yn rhan o bob taith fasnach oni bai bod rhesymau amlwg dros beidio â gwneud hynny. Tudalen 28

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gweithredu strategaeth glir i gynorthwyo sector celfyddydau Cymru i ddatblygu marchnadoedd rhyngwladol. Tudalen 28

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnig ffynhonnell o arbenigedd codi arian i helpu sefydliadau celfyddydol bach i gynyddu eu cyllid heblaw cyllid cyhoeddus mewn ffordd sy'n cyfateb i'r cymorth y mae'n ei gynnig ar hyn o bryd i fusnesau bach drwy Busnes Cymru. Tudalen 36

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell, o ystyried y sefyllfa ariannol anodd sy'n wynebu sefydliadau celfyddydol yng Nghymru – ac yn amodol ar asesiad effaith o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn – y dylai'r Cyngor Celfyddydau ystyried a ellir ehangu'r Rhaglen Gydnerthedd i helpu i wella gwydnwch ariannol sefydliadau nad ydynt yn cael eu hariannu gan arian refeniw. .......... Tudalen 36

**Argymhelliad 10.** Argymhelliad 10Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu eu nodau'n glir ar gyfer Cymru Greadigol, ynghyd ag amserlen ar gyfer ei sefydlu, a dangos sut bydd y corff newydd yn helpu sefydliadau celfyddydol i gynyddu eu hincwm nad yw'n gyhoeddus. .......... Tudalen 36

# 1. Cefndir

**1.** Mae'r mwyafrif helaeth o ddyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y celfyddydau yn mynd i Gyngor Celfyddydau Cymru: £31.2 miliwn o gyllid refeniw o'r £31.7 miliwn a ddyrannwyd i'r maes hwn yng nghyllideb ddrafft 2017–18. Mae cyllid refeniw yn y maes hwn wedi codi o 3.5% mewn termau arian parod o'i gymharu â chyllideb 2016-17, yn dilyn toriadau dros nifer o flynyddoedd.

**2.** Mae'r cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru mewn termau real (cyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru a chyllid gan y Loteri Genedlaethol) wedi gostwng dros y deng mlynedd diwethaf o ffigwr arian parod gwreiddiol o £29.5 miliwn yn 1995–96 i ffigwr a addaswyd yn ôl y mynegai prisiau manwerthu o £26.7 miliwn yn 2016-17.

**3.** Mae cyllid yr awdurdod lleol ar gyfer Portffolio Celfyddydol Cymru (sefydliadau celfyddydol sy'n derbyn arian refeniw blynyddol gan y Cyngor Celfyddydau) wedi gostwng o £11 miliwn yn 2011–12 i £4.5 miliwn yn 2015–16.

**4.** Cydnabu tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog[1] y gostyngiad mewn cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau, gan ddweud "[bod] angen clir i'r sector diwylliant feithrin ei allu i godi arian, i farchnata ac i greu incwm". Mae hefyd yn dweud "[bod] y sector yn colli staff profiadol ac arbenigol, sy'n peryglu ei broffesiynoldeb". Yn ogystal â hyn, mae'n galw ar gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru i annog y sector i wella ei berfformiad wrth godi cyllid heblaw cyllid cyhoeddus.

**5.** Er hynny, mewn erthygl a ysgrifennwyd ar gyfer cylchgrawn "Agenda Cymru" Sefydliad Materion Cymru ym mis Tachwedd 2014,[2] esboniodd Geraint Talfan Davies:

> "Fund-raising in provincial cities in the UK is a different proposition from fund-raising within London and the south east of England, as is evidenced by the survey, Private investment in arts and culture, 2011-12, conducted by Arts & Business and published in May last year. The report dealt solely with England. Arts and Business Cymru is a separate organisation and has no comparable data, although Wales is not expected to be out of line with other peripheral regions.

---

[1] http://.senedd.cynulliad.cymru/documents/s69376/Evidence%20Paper.pdf

[2] www.iwa.wales/wp-content/uploads/2016/04/agenda-53-winter2014-2.pdf

> The A&B survey concluded that the combined contribution of individuals and business to the arts in London amounted to £412.43m. (85%) with the rest of England receiving £74.19m (15%) - almost precisely in inverse proportion to the distribution of the population. In terms of contributed income per head of the population, this amounts to £49.64 per head in London as against £1.64 per head for the remainder of England."

## Ein Barn

Ar ôl archwilio cyfleoedd ar gyfer tyfu incwm heblaw incwm cyhoeddus ar gyfer sefydliadau celfyddydol yng Nghymru, rydym wedi canfod eu bod yn wynebu anawsterau wirioneddol iawn wrth wneud hynny. O ystyried cais Llywodraeth Cymru i'r sector leihau ei ddibyniaeth ar gyllid cyhoeddus, mae'n bwysig deall y bydd angen cymorth ychwanegol gan y sector cyhoeddus yn y tymor byr ar gyfer newid o'r fath, yn enwedig wrth ei ystyried yn erbyn cefndir o gyni, a goruchafiaeth Llundain a De-ddwyrain Lloegr mewn perthynas â chodi arian yn y DU.

Mae'r ffigyrau a nodwyd gan Geraint Talfan Davies uchod yn rhoi darlun brawychus. Mae lefel goruchafiaeth Llundain a De-ddwyrain Lloegr dros gyllid y sector preifat ar gyfer y celfyddydau yn annheg ac yn niweidiol. Rydym yn rhoi sylw i achosion hyn yn hwyrach yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'n werth dweud ar yr adeg hon fod angen i'r sefyllfa, lle mae un ardal gymharol fach yn rheoli'r cyllid i'r fath raddau, dderbyn sylw ar frys er mwyn caniatáu i sector celfyddydau Cymru ymateb yn effeithiol i alwad Llywodraeth Cymru.

# 2. Cymorth busnes

## Perfformiad Cymru wrth ddenu cymorth busnes

**6.** Clywodd y Pwyllgor fod sefydliadau celfyddydol yng Nghymru yn wynebu anawsterau o ran denu cymorth busnes, o ganlyniad i'r nifer fach o fusnesau mawr a leolir yng Nghymru.

**7.** Dywedodd tystiolaeth gan Gyngor y Celfyddydau[3] "[fod] noddi yn tueddu bod yn fwy cyffredin yn y dinasoedd ac wrth gefnogi sefydliadau celfyddydol mwy gyda phroffil uwch". O ganlyniad, "[b]yddai sefydliad cymunedol bach mewn ardal wledig yn cael anhawster i gael nawdd corfforaethol sylweddol". Dywedodd y Cyngor Celfyddydau hefyd (gan roi tystiolaeth ychwanegol i'r Pwyllgor)[4] yn 2011 (y flwyddyn olaf i ddata gael ei gofnodi) fod Cymru i'w gweld fel pe bai hi'n dal ei thir o'i chymharu â gweddill y DU. Fodd bynnag, y ffigwr trawiadol yw'r un ar gyfer Llundain, sydd â 13% o boblogaeth y DU, ond dros hanner o gyfanswm y buddsoddiadau busnes.

**8.** Dywedodd Canolfan y Celfyddydau Taliesin/Prifysgol Abertawe, o ran cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau, y bydd y chwaraewyr o bwys yn ennill y buddion mwyaf bob amser.[5]

**9.** Mae Celfyddydau a Busnes Cymru yn frocer cydberthnasau rhwng sefydliadau busnes a'r celfyddydau. Esboniodd i'r Pwyllgor fod busnesau yn cefnogi'r sefydliadau celfyddydol lle maent yn gallu cefnogi nodau corfforaethol y busnesau, nid oherwydd cred ddyngarol bod dyletswydd arnynt wneud hynny.[6] Dywedodd hefyd fod penderfyniadau o ran ymwneud busnesau â sefydliadau celfyddydol yn dueddol o gael eu gwneud yn Llundain, yn bell o reolaeth staff a leolir yng Nghymru.

## Gwasanaethau i gefnogi codi arian

**10.** Mae Celfyddydau a Busnes Cymru wedi gweithredu fel elusen annibynnol yng Nghymru ers 2011. Mae arian gan y Cyngor Celfyddydau wedi galluogi Celfyddydau a Busnes Cymru i ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau a phrosiectau, ac mae llawer ohonynt bellach yn cael eu cefnogi gan gyllid heblaw

[3] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68064/ART06%20Arts%20Council%20Wales.pdf
[4] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68702/Arts%20Council%20of%20Wales%20-%20Additional%20Information.pdf
[5] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68076/ART18%20Swansea%20University.pdf
[6] http://cynulliad.cymru/documents/s68083/ART25%20Arts%20Business%20Cymru.pdf

cyllid cyhoeddus. Roedd y Cyngor Celfyddydau wedi bwriadu dod â'i gyllid craidd ar gyfer Celfyddydau a Busnes Cymru i ben. Fodd bynnag, yn dilyn y cyfarfodydd i ystyried y mater hwn a gynhaliwyd gan y Pwyllgor y llynedd, mae'r Cyngor Celfyddydau wedi estyn y cyllid hwn am ddwy flynedd, ar y ddealltwriaeth lem mai dyma fydd diwedd y cyllid refeniw craidd gan y Cyngor Celfyddydau ar gyfer y sefydliad.

**11.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:[7]

> "I was part of the discussion when Arts & Business Cymru was formed and there was then direct Government support. I'm not suggesting that we are making an offer through this committee that we would do that again, but there's more than one way of supporting a service organisation that straddles the private sector and the public sector, and we have to think of creative ways of doing this because they're not an ordinary client of the arts council is the point I'm trying to make."

**12.** Mae oriel celfyddydau cyfoes G39 wedi awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru gynnig cymhellion i fusnesau i gefnogi'r celfyddydau.[8]

## Cydbwysedd cyllid rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat

**13.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor[9] nad oedd yn credu bod y cydbwysedd presennol rhwng y cyllid o ffynonellau cyhoeddus a'r rhai nad ydynt yn gyhoeddus ar gyfer y celfyddydau yn deg, ac roedd yn credu:

> "We need to inspire much more preparedness to invest by the corporate sector, by the public sector, in all forms of artistic activity."

**14.** Ychwanegodd hefyd:

> "[that he wanted] to see the shortfall that has come about in public funding, through local government, into artistic and cultural activity, made up by a greater corporate investment …
>
> [He did not] accept for one moment that the level of economic activity or the productivity or the performance of Welsh business is at such a level that it is not able to take up its corporate social responsibility."

[7] http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4382
[8] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68074/ART16%20G39.pdf
[9] http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4382

**15.** Pan ofynnwyd iddo beth gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i ysgogi rhagor o fuddsoddiad preifat yn y celfyddydau, dywedodd y Gweinidog:

> "when I was doing not dissimilar work in the promotion of bilingualism or languages policy, Welsh language policy in Wales, and working with the private sector, I made a decision fairly early on that the best relationship established with the private sector was through agencies that were themselves agencies that worked within the business sector, and I think that must be the way forward. That's why, as I say, I've been involved with Arts & Business and I think there is a case for further development of that kind.
>
> [...]
>
> And this is where I'm now in the process of looking at what has been described as 'creative Wales' and how that could relate to 'artistic Wales' in a federation of support so that the elements of the creative side of business, if you like, and the creative side of the artistic endeavour work together as teams that will be able to—not to be interventionist, but to be supportive of creating the atmosphere where businesses will see the opportunity of investing."

## Ein Barn

O ystyried yr anawsterau a wynebir gan sefydliadau celfyddydol yng Nghymru wrth ddenu cefnogaeth gan fusnesau, mae'n hanfodol bod y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan Gelfyddydau a Busnes Cymru yn parhau i fod ar gael. Nid yw hynny'n dweud mai Celfyddydau a Busnes Cymru yw'r unig sefydliad sy'n gallu neu a ddylai cynnig y gwasanaethau hyn, neu y dylent barhau i gael eu darparu yn union yn un modd fel y maent ar hyn o bryd. Mae yn golygu bod angen i amrywiaeth o wasanaethau a ariennir yn gyhoeddus fod ar gael i helpu sefydliadau celfyddydol i ddenu cyllid heblaw cyllid cyhoeddus am eu gwaith. Yn fwy na hynny, mae angen gweithio i nodi sut i fynd i'r afael â'r anawsterau penodol a wynebir gan sefydliadau celfyddydol yng Nghymru o ran denu cyllid busnes. Efallai y bydd angen buddsoddiad cyhoeddus ychwanegol yn y tymor byr er mwyn gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi cefnogaeth ariannol, boed hynny drwy Gelfyddydau a Busnes Cymru neu ffynhonnell arall, i hyrwyddo a datblygu gweithio mewn partneriaeth rhwng busnesau a'r celfyddydau i helpu i uchafu'r gefnogaeth ariannol ar gyfer y celfyddydau gan fusnes. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried hefyd sut y gellid rhoi sylw i'r anawsterau penodol a

wynebir gan y sector celfyddydau yng Nghymru o ran denu cyllid gan fusnesau, a ph'un a fydd angen buddsoddi cyhoeddus ychwanegol yn y maes hwn er mwyn gyrru'r gwaith yn ei flaen.

# 3. Cyfraniadau gan unigolion

## Yr amgylchedd o ran cyfraniadau gan unigolion yng Nghymru

**16.** Eto, mae'r dystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor yn tynnu sylw at yr anawsterau penodol o ran creu cyllid o gyfraniadau gan unigolion yng Nghymru, gyda thystion yn cyfeirio at y nifer cymharol isel o unigolion sydd â gwerth net uchel yng Nghymru, ffyniant unigol, a chyfran isel o gartrefi sy'n cyfrannu at elusennau. Clywodd y Pwyllgor hefyd fod llai o bobl yn cyfrannu at sefydliadau celfyddydol o'u cymharu ag achosion da eraill, gan gynnwys cymorth tramor a sefydliadau crefyddol.

**17.** Nododd canolfan gelfyddydau Chapter yr her barhaus o ddangos bod y celfyddydau yn achos elusennol.[10] Dywedodd oriel celfyddydau cyfoes g39,[11] o ganlyniad i fynediad am ddim i orielau ac amgueddfeydd, fod syniad y gellir gweld celf yn rhad ac am ddim wedi'i ymgorffori'n ddiwylliannol.

## Cymhelliannau dros gyfrannu

**18.** Dywedodd y Cwmnïau Cenedlaethol wrth y Pwyllgor[12] y dylai Llywodraeth Cymru helpu i godi proffil sefydliadau celfyddydol yng Nghymru, gan awgrymu:

> "Support from Welsh Government to enable a national/international messaging campaign to advocate for its extraordinary Welsh arts organisations and artists will provide invaluable endorsement and national pride. Highlighting how the arts are intrinsic to the success of the Wellbeing of Future Generations Act, the Creative Learning Through the Arts and the Government's new 2018 curriculum (which includes the Expressive Arts), and more within the Programme for Government, will contribute to creating a positive picture for potential funders to support audiences to engage."

**19.** Cymeradwywyd y syniad hwn gan y Cyngor Celfyddydau wrth ei drafod gyda'r pwyllgor. Gwnaeth Blue Canary awgyrmiad tebyg,[13] gan ddweud:

---

[10] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68065/ART07%20Chapter%20Cardiff%20Ltd.pdf

[11] http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4381

[12] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68079/ART21%20National%20Companies%20of%20Wales.pdf

[13] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s67395/Paper%204%20-%20Blue%20Canary.pdf

> "The ACW and Welsh Government could use their status to help to offer incentives to giving – awards for recognition being the most obvious."

**20.** Pan ofynnwyd i'r Gweinidog ynghylch yr anawsterau penodol a wynebir gan sefydliadau celfyddydol o ran codi incwm drwy gyfraniadau gan unigolion preifat yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:[14]

> "Nid wy'n siŵr beth ydy'r anawsterau yna. Byddai diddordeb gen i weld yn y dystiolaeth gan y pwyllgor beth ydych chi'n ei weld fel anawsterau. [...]Rwy'n meddwl bod hwyluso pobl i weld eu cyfle ac i deimlo eu bod nhw'n cael eu hanrhydeddu am y cyfraniad—ac mae honno'n rhan bwysig iawn. Yn groes i'r hyn mae'r ysgrythur yn ei awgrymu, sef y dylem ni fod yn rhoi yn y dirgel, rwy'n meddwl yn yr achos yma y dylai ein bod ni'n dathlu'n gyhoeddus pan fydd pobl yn rhoi rhoddion sylweddol, fel y gallan nhw ei fforddio, yn enwedig i fuddsoddiadau cyfalaf."

**21.** Dywedodd hefyd:

> "Rwy'n credu mai'r ffordd y gall y Llywodraeth wneud hynny ydy drwy fod yn enghreifftiol a drwy fuddsoddi mewn celf yn briodol yn eu hadeiladau newydd. Ond, hefyd, mae'n rhaid inni fod yn fwy agored i sicrhau bod y gelf sydd gennym ni yn cael ei [g]weld."

**22.** O ran y mater ynghylch a oedd angen ymgyrch benodol, dywedodd y Gweinidog:

> "Rwy'n meddwl mai nid ymgyrch benodol rŷm ni ei angen, ond sicrhau bod y drafodaeth am rôl celfyddyd a diwylliant yn ein cymdeithas yn drafodaeth sydd yn amlwg ym mywyd Cymru. Dyna fuaswn i'n ei ddweud; nid rhyw ymgyrch benodol. Os oes yna gynlluniau newydd y gellid eu dyfeisio a fyddai'n cyfuno'r posibilrwydd o hwyluso rhoddi yn ogystal â hysbysebu'r cyfle i roi, yna mi fyddai diddordeb gen i yn eu gweld nhw, ond nid wyf wedi gweld dim byd deniadol eto y byddwn i yn gallu ei hyrwyddo fel ymgyrch newydd, ond rwyf yn agored i gael fy mherswadio ar hynny, wrth gwrs."

[14] http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4382#A40311

## Ein Barn

Mae rhwystrau sylweddol i'w goresgyn o ran codi arian trwy gyfraniadau gan unigolion, yn anad dim y nifer cymharol isel o unigolion sydd â gwerth net uchel yng Nghymru. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei gwaethygu gan y safbwynt cyffredinol bod y celfyddydau yn achos elusennol llai teilwng o'u cymharu â meysydd eraill, megis cymorth tramor ac iechyd. Rydym o'r farn bod rôl allweddol gan Lywodraeth Cymru i'w chwarae wrth helpu i annog unigolion i gyfrannu at y celfyddydau drwy ddadlau o'u plaid fel achos elusennol haeddiannol.

Rydym yn argymell yn gryf fod y Llywodraeth yn ystyried ffyrdd y mae'n gallu helpu sefydliadau celfyddydol i oresgyn y rhwystrau sylweddol hyn, ac amlinellu awgrymiadau penodol yn yr argymhelliad

isod, a godwyd gan dystion yn ystod yr ymchwiliad hwn, yr ydym o'r farn ei fod yn haeddu ystyriaeth arbennig.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rhagor o fentrau i godi proffil y celfyddydau fel achos elusennol, gan gynnwys gwobr Dydd Gŵyl Dewi i gydnabod y rhai sydd wedi gwneud cyfraniadau sylweddol i gefnogi'r celfyddydau.

# 4. Sefydliadau ac ymddiriedolaethau

## Y farchnad bresennol

**23.** Mae'r Cyngor Celfyddydau wedi dweud wrth y Pwyllgor fod y farchnad ar gyfer y rhai sy'n ceisio am gyllid gan sefydliadau ac ymddiriedolaethau yn gystadleuol iawn ar hyn o bryd. Dywedodd fod sefydliadau preifat yn Ewrop wedi cyfyngu ar y grantiau a roddir ganddynt yn ystod cyfnod o gyfraddau llog isel, a bod y galw'n uchel ymhlith sefydliadau celfyddydol yn dilyn nifer o flynyddoedd o doriadau yn y sector cyhoeddus.[15]

**24.** Fodd bynnag, dywedodd Celfyddydau a Busnes Cymru, er bod cystadlu ffyrnig am grantiau, fod llawer o ymddiriedolaethau a leolir yn Llundain yn parhau i fynegi eu diddordeb i fuddsoddi mwy yng Nghymru, ac yn datgan bod nifer ac ansawdd y ceisiadau yn parhau i fod yn isel.[16]

## Problemau i'w goresgyn

**25.** Dywedodd Blue Canary nad oes gan Gymru y llu o ymddiriedolaethau sy'n bodoli mewn llawer o ranbarthau yn Lloegr.[17] Gwnaethon nhw hefyd gynnig nifer o resymau posibl i esbonio'r diffyg mewn ceisiadau a grantiau dilynol i Gymru:

- "Lack of capacity in arts organisations to research and submit applications to the right trust;
- Lack of knowledge in the sector about grant giving trusts;
- Lack of experience as to how to write funding applications for grant giving trusts;
- UK based trusts and foundations not doing enough in Wales to promote themselves (they all admitted more could be done)."

**26.** Mae Canolfan y Celfyddydau Taliesin a Phrifysgol Abertawe yn nodi sut mae ceisiadau llwyddiannus am grantiau yn cael eu dylanwadu gan faint y sefydliad, gyda'r sefydliadau mwyaf megis Opera Cenedlaethol Cymru yn llwyddo mwy nag eraill am ei bod yn gallu cyflogi arbenigwyr i ymchwilio a chael mynediad at gyllid

[15] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68064/ART06%20Arts%20Council%20Wales.pdf
[16] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68083/ART25%20Arts%20Business%20Cymru.pdf
[17] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s67395/Paper%204%20-%20Blue%20Canary.pdf

o'r fath – gyda lefel y gystadleuaeth yn uchel iawn a'r rhan fwyaf o ymddiriedolaethau a sefydliadau yn gweithredu ledled y DU.[18]

**27.** Dywedodd yr ymgynghoriaeth codi arian celfyddydol Blue Canary wrth y Pwyllgor fod sefydliadau celfyddydol ar eu hôl hi o ran y mentrau a'r arweiniad a welir mewn perthynas â chynhyrchu incwm ar draws y sector elusennol ehangach.[19] Mae angen i sefydliadau celfyddydol, felly, wella o ran lledaenu'r gair mewn perthynas â gwerth y celfyddydau.

**28.** Nododd Celfyddydau a Busnes Cymru'r set sgiliau penodol sydd ei hangen i annog cyfraniadau unigol, gan ddweud:[20]

> "Securing donations is also a very different fundraising skill to negotiating a sponsorship deal or applying for a grant from a trust. This is just one of the reasons that underline the importance of ensuring Wales has enough skilled fundraisers working in the arts."

**29.** Mae Chapter yn dweud bod ei chymorth refeniw blynyddol gan y Cyngor Celfyddydau[21] yn amhrisiadwy o ran mynediad at gyllid, oherwydd:

> "Trusts like the reassurance of seeing public support there, and for funders who are not local, this public support is often the first sign that a project has a local need and should be funded."

**30.** Mae tystiolaeth G39 yn cwestiynu pam mae'r mwyafrif helaeth o gyllid dyngarol y DU wedi'i ganoli yn Llundain.[22]

**31.** Mae Ffilm Cymru yn nodi'r diffyg cyllid dyngarol ar gyfer ffilmiau, gyda'r cyfleoedd yn tueddi i ymwneud â buddsoddi, sy'n ffafrio cwmnïau mwy sefydlog a chynigion masnachol.[23]

## Enghreifftiau o lwyddiant

**32.** Er bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn canolbwyntio ar yr anawsterau a wynebir gan sefydliadau celfyddydol Cymru, cyflwynwyd enghreifftiau

[18] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68076/ART18%20Swansea%20University.pdf
[19] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s67395/Paper%204%20-%20Blue%20Canary.pdf
[20] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68083/ART25%20Arts%20Business%20Cymru.pdf
[21] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68065/ART07%20Chapter%20Cardiff%20Ltd.pdf
[22] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68074/ART16%20G39.pdf
[23] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68077/ART19%20Ffilm%20Cymru%20Wales.pdf

llwyddiannus o godi arian a wnaed o fewn y sector i'r Pwyllgor. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig,[24] esboniodd Theatr Genedlaethol Cymru:

> "Since its inception, NTW has leveraged over £1.7 million from trusts and foundations based outside of Wales. All of which has been spent within Wales and has also paid for a number of jobs for individuals throughout Wales, not just in Cardiff where the office is based. A recent independent consultation has confirmed that NTW is punching above its weight with regards to this rate of return, particularly in relation to the company's lean overhead business model and level of core ACW grant compared to other similar arts organisations throughout the UK."

Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru

Mae'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, a sefydlwyd yn 1999, yn elusen sy'n rheoli rhaglenni grant effaith uchel a gynlluniwyd i gyflawni canlyniadau cynaliadwy. Maent yn rhoi grantiau ar ran cleientiaid, deiliaid cyllid a chyfranwyr, gyda'r nod o ganiatáu i bobl leol gyflawni newid ysbrydoledig yn eu cymunedau.

Mae'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru yn dyrannu grantiau ar ran cyfranwyr rhwng £500 a £150,000 i gefnogi prosiectau a sefydliadau cymunedol. Drwy weithio gyda rheolwyr buddsoddi, maent wedi sefydlu cronfa waddol yng Nghymru, a defnyddir yr incwm i gefnogi grwpiau cymunedol.

Er nad yw'r sefydliad yn canolbwyntio'n benodol ar y celfyddydau, mae'r prosiectau a ariennir ganddynt yn cynnwys prosiectau celfyddydol; maent hefyd wedi dweud wrth y Pwyllgor y byddai diddordeb ganddynt mewn gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y sector celfyddydol i edrych ar gyfleoedd i greu a hyrwyddo cronfa gynaliadwy ar y cyd.

## Cynyddu cyllid

**33.** Dywed y Gweinidog yn ei bapur[25] fod "cynyddu'r arian gan ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol hefyd yn elfen bwysig o'n strategaeth". Pan holwyd ef ymhellach ynghylch beth roedd y strategaeth hon yn ei gynnwys, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:[26] Dw i byth yn rhoi'r gorau i ymgysylltu â'r bobl hyn [Ymddiriedolaethau a sefydliadau Cymru] gan fod pob un ohonynt yn

[24] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68081/ART23%20National%20Theatre%20Wales%20NTW.pdf

[25] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s69376/Evidence%20Paper.pdf

[26] http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4382

ffrindiau personol i mi. O ran ceisio cynyddu'r cyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau nad ydynt yn gweithredu ar hyn o bryd yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog:[27]

> "…if you make a reccomendation that you think the Minister for culture should be touting themselves around central London looking for arts funding for Wales, I will look at it.."

**34.** Er y dywedodd un o swyddogion y Gweinidog wrth y Pwyllgor:[28]

> "I think it's fair to say that the Arts Council of Wales has got extremely good relationships with all the major UK trusts and foundations and is actually working very closely with them: Paul Hamlyn, Esmée Fairbairn, Clore Duffield—all the major trusts. I think, as you've probably heard from other people who've given evidence, the process of improving the quality and number of applications from Welsh arts organisations—it's a bit of an oil tanker thing.
>
> […]
>
> I think it's probably our role to ensure that the Arts Council reports to us and gives accurate information on the progress that's been made, the number of applications that are being made. Clearly, there's a training issue as well, and I know that the Arts Council are working with the foundations directly, and also with organisations like the WCVA and the county voluntary councils, to increase the training that's available."

## Ein Barn

O ystyried y nifer fach o sefydliadau ac ymddiriedolaethau yng Nghymru, a'r sefyllfa gystadleuol ar hyn o bryd, mae'n hanfodol bod gan sefydliadau celfyddydol Cymru fynediad at y sgiliau angenrheidiol i gystadlu'n effeithiol am gyllid yng Nghymru, a thu hwnt hefyd. Fodd bynnag, thema a gododd dro ar ôl tro yn y dystiolaeth a glywsom yw nad yw sector celfyddydol Cymru yn meddu ar y sgiliau cywir ar hyn o bryd i gystadlu'n llwyddiannus ar gyfer cyllid posibl. Mae'r diffyg ceisiadau, a nodwyd, gan Blue Canary yn arbennig, yn peri gofid hefyd, ac efallai ei fod yn nodweddiadol o brinder y sgiliau sydd ar gael i sefydliadau unigol.

[27] http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4382
[28] ibid

Er bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r sector ddod yn llai dibynadwy ar gymhorthdal cyhoeddus, nid ydym wedi'n hargyhoeddi ei bod wedi targedu'r prinder sgiliau hwn mor fuan ag y dylai fod wedi gwneud er mwyn cyflawni'r nod hwn.

Er gwaethaf y rhwystrau o ran codi refeniw yn y sector, mae rhai sefydliadau wedi bod yn llwyddiannus iawn yn hyn o beth. Gellir esbonio rhywfaint o'r anghysondeb gan feintiau gwahanol y sefydliadau. Mae sefydliadau mwy o faint yn llawer tebycach o ymddangos yn ddeniadol i fuddsoddwyr posibl, ac mae'n fwy tebygol y bydd ganddynt fynediad at y sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau cyllid. Fodd bynnag, mae llwyddiant sefydliadau cymharol fach, megis Theatr Genedlaethol Cymru, yn awgrymu bod lle i wella o fewn y sector.

Rydym yn croesawu gwaith sefydliadau megis y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut mae'n gallu gweithio gyda grwpiau o'r fath i fynd i'r afael a'r diffygion a amlygwyd yn yr adroddiad hwn. Yn arbennig, drwy weithio gyda nhw, a rhanddeiliaid eraill ledled y sector celfyddydol, i edrych ar gyfleoedd i greu a hyrwyddo cronfa gynaliadwy ar y cyd.

Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ymgysylltu ag ymddiriedolaethau a sefydliadau ar ran sector celfyddydol Cymru. Mae hwn yn gam cadarnhaol ac rydym yn edrych ymlaen at weld canlyniadau'r ymarfer hwn.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i godi ymwybyddiaeth ynghylch y sefydliadau a'r prosiectau celfyddydol rhagorol a leolir yng Nghymru, a buddsoddiad ynddynt, gan sefydliadau ac ymddiriedolaethau o'r DU.

**Argymhelliad 4.** Dylai ymddiriedolaethau a sefydliadau a leolir yn y DU fynd i'r afael â'r cydbwysedd cyllid yn y DU fel mater o frys, lle mae swm annheg ac anghyfartal o gyllid yn cael ei ddyrannu i sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr.

# 5. Codi refeniw

## Ffynonellau incwm

**35.** Esboniodd y Cyngor Celfyddydau'r[29] canlynol:

> "Mae hefyd y dinesydd preifat o unigolyn sy'n prynu tocynnau i fynychu a chynnyrch cysylltiedig (megis lluniaeth a nwyddau), a phethau diwylliannol (megis llyfrau, recordiadau, ffilmiau, celfweithiau)."

**36.** Nododd hefyd bod:

> "Mae gan nifer o sefydliadau celfyddydol sydd â chyfansoddiad elusennol is-gwmni masnachu y maent yn llwyr berchen arno a thrwyddo y rheolant -weithgareddau masnachu anelusennol. Cyfamodir yr elw o'r gweithgareddau hyn wedyn yn ôl i'r elusen."

**37.** Mae Celfyddydau a Busnes Cymru wedi esbonio bod cynnydd sydyn wedi bod yn nifer y cwmnïau sy'n chwilio am hyfforddiant yn seiliedig ar y celfyddydau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion datblygu staff[30]. Esboniodd Hijinx[31] ei fod yn newid ei ffocws o geisio am gyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau i:

> "...earning income from promoting our learning disabled actors as role-play trainers helping public and private sector organisations improve their understanding and communication with vulnerable people-particularly those with a learning disability."

**38.** Yn yr un modd, esboniodd Ffilm Cymru ei fod yn gweld cyfleoedd o ran datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd, yn enwedig ym maes addysg a hyfforddiant, gan agor y potensial ar gyfer ennill incwm.[32]

**39.** Esboniodd Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru fod lleoliadau yng Nghymru yn talu Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru tua 40% yn llai am ei berfformiadau nag mewn rhannau eraill y DU[33] Esboniodd Hijinx ei fod yn gwneud teithiau

---

[29] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68064/ART06%20Arts%20Council%20Wales.pdf

[30] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68083/ART25%20Arts%20Business%20Cymru.pdf

[31] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s69015/Paper%203.pdf

[32] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68077/ART19%20Ffilm%20Cymru%20Wales.pdf

[33] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68078/ART20%20National%20Dance%20Company%20Wales.pdf

rhyngwladol i wneud yn iawn am y colledion a ddaw o ganlyniad i fynd ar deithiau yn y DU.[34]

**40.** Disgrifiodd Ffilm Cymru ei ddull "Magnifier" o ran datblygu'r sector. Mae hyn yn cynnwys nodi eiddo deallusol dichonadwy yn gynnar ac yn systematig, wedi'i gefnogi â chyllid a rhwydweithiau amlddisgyblaethol a fydd yn gallu caniatáu ei ddefnyddio.[35] Yn ystod cyfarfod blaenorol,[36] dywedodd Nick Capaldi, aelod o'r Cyngor Celfyddydau, nad ydym yn manteisio digon ar eiddo deallusol yn y celfyddydau yng Nghymru.

**41.** Mae G39[37] yn rhybuddio:

> "It is not feasible to develop a one-size-fits-all approach for business development across all arts organisations, for example:
>
> - a) the capacity to generate significant earned income increases exponentially with scale of organisation; and
> - b) there are threshold levels of annual turnover below which it is acknowledged that certain business models (e.g. gallery with cafe) are more of a burden than an asset."

**42.** Fodd bynnag, mae nifer o dystion (megis cwmni theatr Theatr na nÓg, a leolir yng Nghastell-nedd) wedi nodi'r cyfyngiadau ymhlyg o fewn llawer o sefydliadau celfyddydol wrth geisio codi refeniw, gan ddweud:[38]

> "Our remit as a charity is to provide a service, which like many other public services is not of a nature that would gain a return on investment by a commercial company. Much of our work happens with local communities and schools where a financial return would not be realistic."

**43.** Yn yr un modd, mae Canolfan Celfyddydau Taliesin/Prifysgol Abertawe yn nodi bod[39] codi arian yn tueddi i beidio â mynd law yn llaw ag arbrofi creadigol, gan ddweud:

---

[34] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s70759/ART27%20Hijinx.pdf
[35] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68077/ART19%20Ffilm%20Cymru%20Wales.pdf
[36] http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s67044/4%20October%202017.pdf
[37] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68074/ART16%20G39.pdf
[38] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68075/ART17%20Theatr%20Nanog%20e.pdf
[39] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68076/ART18%20Swansea%20University.pdf

> "A Pink Floyd tribute band will earn more income from tickets and bar sales than a piece of new writing or contemporary dance."

## Twf rhyngwladol

**44.** Dywedodd tystiolaeth y Cyngor Celfyddydau[40] "[fod] nifer o ffyrdd y gellid rhoi cefnogaeth fwy cydlynus i gwmnïau a meicrogwmnïau (yn aml proffesiynolion creadigol) i dyfu marchnadoedd rhyngwladol newydd", heb awgrymu pwy ddylai wneud y gwaith hwn.

**45.** Canolbwyntiodd tystiolaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru[41] ar gynyddu gwerth allforio celf o Gymru. Roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys:

- Trefnodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yr elfen ddiwylliannol o Daith Masnach a Diwylliant Llywodraeth Cymru i Tsieina ym mis Chwefror 2017.
- Mae'n hanfodol bod cydlynu rhwng gwaith y Cyngor Celfyddydau/Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Cymru Greadigol (corff arfaethedig Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r diwydiannau creadigol)/Busnes Cymru (gwasanaeth datblygu busnes Llywodraeth Cymru) yn cael ei warantu.
- Mae angen gwella'r ymchwil a'r asesiadau o'r effaith economaidd er mwyn paru cwmnïau diwylliannol a chreadigol Cymru â marchnadoedd perthnasol. Dywedodd swyddog Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor[42] nad oedd y syniad hwn o reidrwydd yn ddianghenraid. Ychwanegodd swyddog arall at hynny:[43]

> "I think to understand the particular niche markets that offer the most potential. I think we recognise that, as a small nation, we have to focus our efforts in this area. We can't possibly cover every country and we have priority markets. In the cultural context, what are the activities and the fields where, potentially, we can not only share Wales's culture but actually generate income? I think we have to be very targeted about that. That's one of the lessons of the China visit."

- Ei reolaeth o Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol y Cyngor Celfyddydau.

[40] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68064/ART06%20Arts%20Council%20Wales.pdf
[41] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s70761/ART29%20Wales%20Arts%20International.pdf
[42] http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4382#A40311
[43] Ibid

- O ran adeiladu perthnasau rhyngwladol, dywedodd y byddai dull mwy integredig ar draws y celfyddydau a diwydiannau creadigol yn sicrhau bod y buddion yn cael effaith ehangach.
- Gallai'r Pwyllgor gefnogi dull rhyngwladol rhagweithiol o'r fath drwy gynnal fforwm i ddwyn ynghyd dyfnder ac ehangder y profiad o weithio'n rhyngwladol sydd gan Gymru, yn ogystal ag asiantaethau'r DU sy'n gallu helpu i gyflawni strategaeth o'r fath. Byddai Cyngor Celfyddydau Cymru a'n cangen ryngwladol Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn fwy na pharod i gydweithredu neu arwain y gwaith hwn drwy ein Fforwm Cenedlaethol, fel y nodwyd uchod, a ddisgwylir yn 2018.
- Astudiaeth achos Cymdeithas Quebec ar gyfer Datblygu Mentrau Diwylliannol. Mae'n dweud bod y sefydliad hwn yn ymdrin â'r gwaith o hyrwyddo a chefnogi mentrau diwylliannol Quebec, gan gynnwys y cyfryngau, ar ran Gweinyddiaeth Diwylliant a Chyfathrebu. Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn esbonio bod gan Gymdeithas Quebec ar gyfer Datblygu Mentrau Diwylliannol amrywiaeth o ddulliau sydd ar gael iddi, ond mae'n canolbwyntio'n bennaf ar gynlluniau busnes ymgeiswyr mewn ymdrech i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu, dosbarthu, ac allforio nwyddau diwylliannol Quebec.
- Mae'r gallu i weithio mewn mwy nag un iaith yn sgil y mae galw mawr amdano yn rhyngwladol.

**46.** Ychwanegodd y Cyngor Prydeinig y gellir dysgu mwy o addysg uwch ac addysg alwedigaethol a sectorau hyfforddiant sydd â chysylltiadau cryf yn rhyngwladol.[44] Dywedon nhw hefyd wrth y Pwyllgor y byddai'n fuddiol sefydlu platfform diwylliant rhyngwladol proffil uchel yng Nghymru – gŵyl gelfyddydau bob blwyddyn/bob yn ail flwyddyn sy'n canolbwyntio ar y diwydiant neu arddangosfeydd addysgol, fel y rhai a ddatblygwyd yn yr Alban, er enghraifft.[45]

**47.** Esboniodd Hijinx nad yw bellach yn ariannol gynaliadwy gwneud teithiau yn y DU. Oherwydd hyn, mae'r cwmni yn anelu at wneud yn iawn am y colledion …a wneir [ganddyn nhw] wrth deithio yn y DU gyda gweddillion… yr arian a wneir [ganddyn nhw] wrth fynd ar deithiau rhyngwladol.[46]

[44] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s70762/ART30%20British%20Council%20Wales.pdf
[45] ibid
[46] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s70759/ART27%20Hijinx.pdf

**48.** Mae papur y Gweinidog yn dweud bod[47]Llywodraeth Cymru yn "annog sefydliadau diwylliannol a busnesau creadigol i gymryd rhan yn rhaglen ehangach Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o deithiau masnach". Dywedodd swyddog wrth y Pwyllgor:[48]

> "it depends on the mission, but one thing that's for sure is that there's a discussion on the correct nature of what should go on a mission before the mission is put in place, and if it's cultural, then that happens."

**49.** Wrth ymateb i gais yn ystod ei sesiwn tystiolaeth ar lafar, rhannodd y Gweinidog yr adroddiad gwerthuso ynglŷn ag ymweliad Llywodraeth Cymru â Tseina.[49] Dywed yr adroddiad:

> "A large number of meetings took place between the delegates and arts venues, organisations, and individual artists in various locations across China, including Shanghai and Beijing.
>
> Many conversations took place, and from these several new partnerships and associations have been formed. A number of projects have now begun. Generally these are at fairly early stages of development and discussion, and most organisations expect a further period of conversation, planning, research and development.
>
> [...]
>
> A number of delegates commented on the value of having both arts and other business sectors represented on the mission, as well as politicians. This is the first time that arts and cultural organisations have been included on a Welsh Government trade mission, possibly because Ken Skates' brief (from May 2016 to present) includes Culture.
>
> This combination was fruitful, and delegates felt that they had learned a lot from working closely with, or observing, those from the other sectors."

[47] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s69376/Evidence%20Paper.pdf

[48] http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4382#A40311

[49] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s71411/Paper%202.pdf

## Ein Barn

Rydym yn cydnabod bod rhai cyfyngiadau ar sefydliadau celfyddydol wrth godi refeniw masnachol. Rydym am weld byd celfyddydol creadigol a chynhwysol yng Nghymru, ac nid yw cymryd risgiau a chynhwysiant bob amser yn mynd law yn llaw â cheisio elw. Fodd bynnag, clywsom rai enghreifftiau rhagorol, megis gwaith Hijinx yn cynnig hyfforddiant i fusnesau, a ffyrdd arloesol y gall sefydliadau celfyddydol wneud arian yn hytrach na dim ond trefnu "bandiau teyrnged Pink Floyd".

Crëwyd argraff arnom gan y dystiolaeth a gawsom ynglŷn ag effaith y ddirprwyaeth ddiwylliannol i Tsieina yn 2017. Dangosodd hyn gryn botensial, ar gyfer ymgysylltu diwylliannol yn y dyfodol rhwng Cymru a Tsieina, a chyfle i ymwneud yn ddiwylliannol â theithiau masnach Cymru yn y dyfodol.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil er mwyn nodi a manteisio ar farchnadoedd rhyngwladol sydd â photensial ar gyfer tyfu sefydliadau celfyddydol Cymru.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod elfen ddiwylliannol yn rhan o bob taith fasnach oni bai bod rhesymau amlwg dros beidio â gwneud hynny.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gweithredu strategaeth glir i gynorthwyo sector celfyddydau Cymru i ddatblygu marchnadoedd rhyngwladol.

# 6. Gwirfoddoli

**50.** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn disgrifio'r amser digyflog a roddir gan artistiaid a gweithwyr proffesiynol creadigol fel un o'r ffynonellau mwyaf arwyddocaol o gyllid heblaw cyllid cyhoeddus yn y celfyddydau.[50] Ychwanegodd Arts Alive Wales (elusen addysgol gelfyddydol a leolir ym Mhowys) at y pwynt hwn, gan ddweud:[51]

> "The huge role and value of unpaid volunteers, is one 'in kind' contribution which is scarcely recognised within the ecology of Welsh arts organisations."

**51.** Yn ystod tystiolaeth ar lafar,[52] tynnodd y Cyngor Prydeinig sylw at densiwn o ran defnyddio gwirfoddolwyr mewn sefydliadau celfyddydol, oherwydd trwy ddisodli swyddi ar lefel mynediad â swyddi gwirfoddol, mae pobl o gefndiroedd tlotach yn ei chael hi'n anos ennill profiad yn y sector. Wrth gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog:[53]

> "I don't think you can have too many volunteers in the arts world, because the big events and indeed small, local events that one thinks of in the arts world, rely continually on being able to ensure that audiences are comfortable and enjoy their time when they visit art events and venues."

## Ein Barn

Roedd cyfraniad amhrisiadwy gwirfoddolwyr yn sector celfyddydol Cymru yn thema a ddaeth i'r amlwg dro ar ôl tro, a mynegwyd hyn yn glir drwy gydol yr ymchwiliad hwn. Er bod anawsterau o ran mesur eu cyfraniad, ni ellir gwadu ei fod yn sylweddol a dylid cydnabod hynny.

Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gan y Cyngor Prydeinig ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini o gefndiroedd tlotach, a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru gadw'r rhain mewn golwg pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â pholisïau ac ariannu yn y dyfodol.

[50] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s71411/Paper%202.pdf
[51] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68073/ART15%20Arts%20Alive%20Wales.pdf
[52] http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4381
[53] http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4382

# 7. Cyllid Cyhoeddus ar gyfer y Celfyddydau

**52.** Yn ystod tystiolaeth i'r Pwyllgor,[54] dywedodd y Gweinidog:

> "Rydw i wedi dechrau trafodaeth gyda Chymdeithas Lywodraeth Leol Cymru i weld sut y gallwn ni gael partneriaeth gadarnach ynglŷn â gwariant cyhoeddus a gwariant preifat dilynol … fel y gallwn ni gael patrwm gwell o wariant, partneriaeth o wariant, rhwng llywodraeth leol, Cyngor Celfyddydau Cymru ac, wrth gwrs, y cleientau unigol, y busnesion creadigol a'r busnesion celf. Rwy'n pwysleisio 'busnesion celf' er mwyn gwneud y cysylltiad rhwng busnes a diwylliant yn ganolog i'r hyn rydw i'n sôn amdano fo. Wedyn, rydw i'n gobeithio y gallwn ni sicrhau bod gyda ni gofrestr glir o'r arbenigwyr sydd yn gallu cynghori ac o'r gweinyddwyr effeithiol yn y maes, fel eu bod nhw yn gallu cynorthwyo i gael cyngor i godi cyllid ychwanegol."

## Materion celfyddydol a pholisi cyhoeddus

**53.** Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru wedi galw ar sefydliadau yn y sectorau diwylliant a threftadaeth i chwarae rôl lawer mwy gweithredol wrth helpu i fynd i'r afael â materion polisi cyhoeddus eraill, megis iechyd, addysg, adfywiad a thlodi.[55]

**54.** Wrth gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor,[56] mynegwyd pryder gan gwmni theatr Omidaze y gofynnir i sefydliadau celfyddydol fynd i'r afael â phroblemau mewn meysydd polisi ychwanegol heb gael cyllid ychwanegol, gan ddweud:

> "What's happening at the moment is the arts and culture is being used as a cheap fix-all for no increase in investment, and that cannot be allowed to continue. We are being seen as a sector that can sort out poverty, education, health-'Oh and can you make some great art and can we take you overseas on a visit as well, to promote Wales?' Great. Yes, let's do all of those things, but we can't do it on reduced public investment."

[54] http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4382#A40311

[55] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s69376/Evidence%20Paper.pdf

[56] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s67806/18%20October%202017.pdf

## Ein Barn

Mae cyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn sicrhau sector celfyddydau llewyrchus. Mae'n cynnig cymorth uniongyrchol ar gyfer amrediad eang o sefydliadau celfyddydol na fyddent yn gallu bodoli hebddo mewn llawer o achosion. Dyma yw'r sylfaen hefyd sy'n caniatáu'r amser a'r lle iddynt geisio am gyllid gan y sector preifat, a chan ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Mae'r anawsterau a wynebir gan y rheini yn y sector celfyddydol wrth geisio codi arian yn amrywiol iawn. Mae maint a lleoliad yn ffactorau allweddol o ran galluogi cynhyrchu cyllid heblaw cyllid cyhoeddus. Po leiaf yw'r sefydliad, a po bellaf o ganolfan poblogaeth fetropolitan y mae, anhawsaf yw gwireddu'r potensial ar gyfer codi refeniw masnachol, sicrhau cyllid gan fusnesau a gwneud ceisiadau llwyddiannus am grantiau. Mae anawsterau o'r fath yn helpu i bwysleisio gwerth y cyllid cyhoeddus a roddir i sefydliadau celfyddydol, cyllid sydd wedi lleihau'n sylweddol dros y deng mlynedd diwethaf.

Mae celf yn ffurfio rhan annatod o'r gymdeithas. Mae hunanfynegiant a chreadigrwydd yn rhesymau teilwng ynddynt eu hunain ar dros fuddsoddiad cyhoeddus. Fodd bynnag, mae celf yn gallu cael effaith gadarnhaol ar draws amrywiaeth o feysydd - iechyd meddwl, twristiaeth, a mynd i'r afael â thlodi, ymhlith eraill. Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â pholisi cyhoeddus ac ariannu gydnabod y potensial sydd gan gelf i alluogi canlyniadau cadarnhaol.

Yn gynyddol, mae'r potensial hwn i roi sylw i faterion polisi cyhoeddus ehangach drwy'r celfyddydau yn cael ei gydnabod. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod y gall prosiectau celfyddydol sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn fynd i gostau ychwanegol y tu hwnt i'r cyllid a ddyrennir i sefydliadau. Dylai'r lefel briodol o gymorth, boed hynny'n ariannol neu fel arall, fod ar gael ar gyfer mewnbwn celfyddydol ac unrhyw fudd cyhoeddus ehangach. Mae'r disgwyl y bydd sefydliadau celfyddydol yn gallu cyflawni buddion o'r fath heb y cymorth angenrheidiol yn afresymol ac yn afrealistig, yn enwedig o ystyried y gostyngiad mewn cyllid cyhoeddus ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, er mor heriol yw'r anawsterau wrth godi arian o fewn y sector, nid ydynt yn golygu na ddylai sefydliadau celfyddydol ymchwilio i bob cyfle i greu incwm nad yw'n gyhoeddus, a chael cefnogaeth gan y Cyngor Celfyddydau, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gyda'r ymdrechion hyn.

# 8. Ffynonellau eraill o gymorth ariannol

**55.** Mae'r syniadau a godwyd yn yr ymgynghoriad o ran ffynonellau eraill o gymorth ariannol yn cynnwys:

- Bondiau effaith gymdeithasol, sy'n defnyddio arian ad-daladwy i gyflawni buddion cymdeithasol yn ogystal ag ariannol. Mae'r Cyngor Celfyddydau yn dweud:[57]

  "Gallent gynnig ffynhonnell newydd o fuddsoddi i sefydliadau [sy'n] darparu canlyniadau cymdeithasol yn eu cenhadaeth artistig. Dylid ystyried nodi buddsoddiad iro newydd y gellid ei ddefnyddio i efelychu Cronfa Effaith y Celfyddydau sydd ar gael i fusnesau creadigol yn Lloegr. Gallai'r berthynas bresennol Cyngor Celfyddydau Cymru gyda'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (rheolwyr y cynllun yn Lloegr) ddarparu sail am fwrw ymlaen tuag at gael cynllun tebyg yng Nghymru."

- Deddfwriaeth ganran lle mae gan drethdalwyr yr hawl i ddynodi canran benodol o'u treth incwm i'w dyrannu i sefydliad penodol, dielw, anllywodraethol.

<u>Bond Llesiant Cymru</u>

Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru greu Bond Llesiant Cymru. Diben y bond oedd galluogi'r GIG, awdurdodau lleol, a'r trydydd sector i fuddsoddi mewn cynlluniau sy'n gwella iechyd a lles pobl.

Mae sefydliadau a phrosiectau celfyddydol yn gymwys i wneud cais am gyllid o dan y cynllun.

**56.** Dywedodd G39:[58]

> "The consultation should also identify the value of current support for the arts from non-public sources that cannot be evidenced in financial reports, e.g. rent reduction and rates relief. It also suggests that the Welsh Government could "provide incentives for businesses to support arts."

[57] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68064/ART06%20Arts%20Council%20Wales.pdf
[58] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68074/ART16%20G39.pdf

**57.** Nododd Ffilm Cymru fod cyllid ar gyfer ffilmiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Stiwdios Pinewood (Pinewood a oedd yn rheoli Cyllideb Buddsoddi Cyfryngau Llywodraeth Cymru) yn cael ei gynnig ar delerau masnachol, sy'n golygu ei fod yn tueddi i ffafrio cwmnïau mwy sefydlog a leolir y tu allan i Gymru.[59]

## Ein Barn

O ystyried yr anawsterau a wynebir gan sefydliadau celfyddydol wrth geisio cyllid heblaw cyllid cyhoeddus, mae'n hanfodol archwilio pob ffynhonnell o gymorth ariannol yn llawn. Rydym wedi amlinellu uchod y syniadau a godwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn yr ydym yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru eu hystyried yn benodol.

Rydym yn croesawu cyflwyno "Bond Llesiant" Llywodraeth Cymru ac yn annog y rhai o fewn y sector celfyddydol i ymgyfarwyddo â'r cynllun ac i wneud cais am arian fel y bo'n briodol.

[59] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68077/ART19%20Ffilm%20Cymru%20Wales.pdf

# 9. Mentrau cyfredol a ffyrdd ymlaen

**58.** Nododd tystiolaeth ysgrifenedig y Cyngor Celfyddydau fod[60] 53 o aelodau Portffolio Celfyddydol Cymru bellach yn cymryd rhan yn ei Raglen Gydnerthedd, y mae'n ei disgrifio fel dull newydd ar gyfer datblygu modelau busnes cynaliadwy. Disgrifiodd oriel celfyddydau cyfoes G39 pa mor ddefnyddiol fu'r Rhaglen Gydnerthedd hyd yma, gan nodi bod gwaith tebyg wedi dechrau yng Nghyngor Celfyddydau Lloegr rai blynyddoedd yn ôl.[61]

**59.** Esboniodd Blue Canary[62] ei fod wedi cael ei gomisiynu gan Gyngor Celfyddydau Cymru i wneud y canlynol:

> "...run a consultation and a scoping review of the challenges (and successes) of arts organisations across Wales, and across art-forms, with work to diversify income streams."

**60.** Roedd yr adroddiad hwn i fod i gael ei gyflwyno ddiwedd mis Hydref 2017.

**61.** Dywedodd Blue Canary hefyd fod dibyniaeth afiach gan y sector ar Gyngor Celfyddydau Cymru, a bod angen i'r Cyngor Celfyddydau alluogi sefydliadau i gymryd y risgiau angenrheidiol hynny sydd eu hangen i wir amrywio ffrydiau incwm.[63]

**62.** Nododd Celfyddydau a Busnes Cymru fod diffyg ar hyn o bryd o ran pobl sy'n fedrus wrth godi arian ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru, a'i fod yn cynnal rhaglen Interniaethau Creadigol i geisio gwneud yn iawn am hyn. Mae hefyd yn dweud bod rhaid i sefydliadau fod yn agored i gyflogi gweithiwr codi arian rhan amser y mae'n debygol y bydd yn codi arian ar gyfer sefydliadau celfyddydol eraill ar yr un pryd.[64]

**63.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad,[65] dywedodd Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru y canlynol:

---

[60] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68064/ART06%20Arts%20Council%20Wales.pdf

[61] http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4381#A40056

[62] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s67395/Paper%204%20-%20Blue%20Canary.pdf

[63] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s67395/Paper%204%20-%20Blue%20Canary.pdf

[64] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68083/ART25%20Arts%20Business%20Cymru.pdf

[65] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68078/ART20%20National%20Dance%20Company%20Wales.pdf

> "Encouraging skills exchanges between organisations and improving access to relevant training courses (mainly in England) could help develop and retain staff."

**64.** Dywedodd Celfyddydau a Busnes Cymru yn ei ymateb ysgrifenedig mai'r "unig ffordd i gynyddu'r pwll hanfodol o weithwyr proffesiynol hyn yn y tymor hir, yw drwy sefydlu codi arian celfyddydol fel llwybr gyrfa dichonadwy a deniadol".[66]

**65.** Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu Cymru Greadigol, corff hyd braich i ddatblygu'r diwydiannau creadigol. Mae papur y Cyngor Celfyddydau yn galw hyn yn ddatblygiad strategol arwyddocaol.[67]

**66.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:[68]

> "I do value the way in which the Arts Council is now seeking to build up resilience across the board among its artistic clients through making it clear that there are forms of support available, both for the development of the artistic endeavour and also of the business side. And this is where I'm now in the process of looking at what has been described as 'Creative Wales' and how that could relate to 'artistic Wales' in a federation of support so that the elements of the creative side of business, if you like, and the creative side of the artistic endeavour work together as teams that will be able to—not to be interventionist, but to be supportive of creating the atmosphere where businesses will see the opportunity of investing."

## Ein Barn

Mae'n bwysig bod ffrydiau incwm sefydliadau celfyddydol yng Nghymru mor gynaliadwy â phosibl. Rydym yn croesawu, felly, Rhaglen Gydnerthedd Cyngor Celfyddydau Cymru, sy'n ceisio cyflawni'r nod hwn. Fodd bynnag, dim ond sefydliadau portffolio'r Cyngor Celfyddydau sy'n gymwys i fanteisio ar y rhaglen, ac rydym yn pryderu dros y lefel o gymorth sydd ar gael i sefydliadau nad ydynt yn rhan o Bortffolio Celfyddydau Cymru.

Comisiynwyd Blue Canary gan y Cyngor Celfyddydau i gynnal adolygiad cwmpasu o'r heriau ariannol sy'n wynebu sefydliadau celfyddydol ar draws Cymru. Rydym yn croesawu'r adolygiad hwn ac yn gobeithio y bydd y canfyddiadau yn helpu i hwyluso camau gweithredu sydd wedi'u targedu ac ar

[66] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68083/ART25%20Arts%20Business%20Cymru.pdf
[67] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s68064/ART06%20Arts%20Council%20Wales.pdf
[68] http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4382#A40311

frys ar lefel Cymru gyfan. O ystyried bod canfyddiadau'r adolygiad i fod i gael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2017, gobeithiwn y bydd y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl.

Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i sefydlu "Cymru Greadigol", corff hyd braich gyda'r nod o ddatblygu'r celfyddydau creadigol. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod diffyg eglurder ar hyn o bryd – o fewn y sector celfyddydol a Llywodraeth Cymru – o ran beth yn union fydd swyddogaeth y corff hwn. Mae'n hanfodol cyn i'r corff hwn gael ei sefydlu fod ei swyddogaeth yn cael ei diffinio a'i chyfathrebu'n glir.

Mae diffyg sgiliau priodol o fewn y sector yn rhywbeth a fynegwyd yn glir drwy gydol yr ymgynghoriad hwn. Rydym yn falch bod Celfyddydau a Busnes Cymru wedi cydnabod hyn ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater drwy ei Raglen Fentrau Creadigol. Dylai unrhyw weithgareddau o'r fath – sy'n ceisio lleihau'r diffyg mewn sgiliau yn y sector celfyddydol – gael eu hasesu gan Lywodraeth Cymru a'u hariannu'n briodol.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnig ffynhonnell o arbenigedd codi arian i helpu sefydliadau celfyddydol bach i gynyddu eu cyllid heblaw cyllid cyhoeddus mewn ffordd sy'n cyfateb i'r cymorth y mae'n ei gynnig ar hyn o bryd i fusnesau bach drwy Busnes Cymru.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell, o ystyried y sefyllfa ariannol anodd sy'n wynebu sefydliadau celfyddydol yng Nghymru – ac yn amodol ar asesiad effaith o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn – y dylai'r Cyngor Celfyddydau ystyried a ellir ehangu'r Rhaglen Gydnerthedd i helpu i wella gwydnwch ariannol sefydliadau nad ydynt yn cael eu hariannu gan arian refeniw.

**Argymhelliad 10.** Argymhelliad 10Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu eu nodau'n glir ar gyfer Cymru Greadigol, ynghyd ag amserlen ar gyfer ei sefydlu, a dangos sut bydd y corff newydd yn helpu sefydliadau celfyddydol i gynyddu eu hincwm nad yw'n gyhoeddus.

# Atodiad A – Sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn: http://cofnod.cynulliad.cymru/Search/?type=2&meetingtype=445

Mae gweddarllediadau ar gael yn: www.senedd.tv

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| 4 Hydref 2017 | Nick Capaldi, Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru<br>David Alston, Cyfarwyddwr y Celfyddydau, Cyngor Celfyddydau Cymru<br><br>Paul Kaynes, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru<br>Michelle Carwardine-Palmer, National Theatre Wales<br>Leonora Thomson, Opera Cenedlaethol Cymru<br>Mathew Milsom, Canolfan Mileniwm Cymru |
| 18 Hydref 2017 | Andy Eagle, Cyfarwyddwr, Canolfan Gelfyddydau Chapter<br>Sybil Crouch, Cyfarwyddwr, Canolfan Gelfyddydau Taliesin<br><br>Rachel Jones, Prif Weithredwr, Celfyddydau a Busnes Cymru<br>Emma Goad, Rheolwr, Blue Canary Arts and Heritage Fundraising<br><br>Yvonne Murphy, Cyfarwyddwr Artistig, Omidaze Theatre Company |
| 30 Tachwedd 2017 | Rebecca Gould, Pennaeth y Celfyddydau, British Council Cymru<br>Eluned Haf, Pennaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru<br>Clare Williams, Prif Weithredwr Theatr Hijinx<br>Pauline Burt, Prif Weithredwr Ffilm Cymru<br><br>Stephen Thornton, Rheolwr Materion Cyhoeddus Purfa Penfro, Valero<br>Hoodi Ansari, Ymddiriedolwr, G39<br><br>Mathew Prichard, Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Ymddiriedolaeth Colwinston |

| | |
|---|---|
| 6 Rhagfyr 2017 | Dafydd Elis-Thomas AM, y Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth<br>Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru<br>Peter Owen, Pennaeth Y Gangen Polisi Celfyddydau, Llywodraeth Cymru |

# Atodiad B – Tytsiolaeth ysgrifenedig

Daeth tystiolaeth i'r Pwyllgor drwy gydol yr ymchwiliad. Cynhaliwyd Ymgynghoriad y Pwyllgor o ddydd Gwener, 28 Gorffennaf 2017 i ddydd Gwener 25 Awst 2017. Mae'r ymatebion a ddaeth i law wedi'u rhestru isod ac meant ar gael yn llawn yn:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=19746

| Cyfeirnod | Sefydliad / Enw |
|---|---|
| ART01 | Theatre Wales |
| ART02 | Mission Gallery |
| ART03 | Achates Philanthropy Foundation |
| ART04 | Llantarnam Grange Arts Centre |
| ART05 | Mid Wales Opera |
| ART07 | Chapter |
| ART06 | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| ART08 | TRG Arts UK |
| ART09 | Samuel Murray MA |
| ART10 | Welsh Green Party |
| ART11 | Arts Development UK |
| ART12 | Prifysgol Metroploitan Caerdydd |
| ART13 | Art Fund_ |
| ART14 | Celfyddydau Gwirfoddol Cymru |
| ART15 | Arts Alive Wales |
| ART16 | G39 |
| ART17 | Theatr na nÓg |
| ART18 | Prifysgol Abertawe, Swansea, Canolfan Celfyddydau Taliesin |
| ART19 | Ffilm Cymru Wales |
| ART20 | Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru |
| ART21 | Cwmnïau Cenedlaethol Cymru<br>▪ Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC<br>▪ Ffilm Cymru Wales<br>▪ Llenyddiaeth Cymru<br>▪ Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru |

- National Theatre Wales
- Theatr Genedlaethol Cymru
- Canolfan Mileniwm Cymru
- Opera Cenedlaethol Cymru

| | |
|---|---|
| ART22 | Laura H Drane |
| ART23 | National Theatre Wales |
| ART24 | Rose |
| ART25 | Arts & Business Cymru |
| ART26 | Welsh National Opera |
| ART27 | Blue Canary |
| ART28 | Hijinx |
| ART29 | Valero |
| ART30 | Celfyddydau Rhyngwladol Cymru |
| ART31 | British Council Cymru |
| ART32 | Omidaze |
| ART33 | Tystiolaeth Gweinidogol |
| ART34 | Cyngor Celfyddydau Lloegr |